4YDD O FEDI

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol




## Croeso nol!

Croeso nol i bawb, gobeithio i chi fwynhau'r haf!

Croeso arbennig i'r plant meithrin a derbyn a’r disgyblion newydd sydd yn dechrau yn yr ysgol eleni. Mae gwybodaeth bellach wedi cael ei rannu gyda chi heddiw ynglŷn â digwyddiadau a dyddiadau pwysig tymor yr hydref.

Cofiwch os fydd eich plentyn yn sâl ac yn methu mynychu’r ysgol gofynnwn yn garedig i chi ein hysbysu yn y bore trwy Arbor. Os oes anhawster cael mynediad i Arbor, cysylltwch gyda’r ysgol. Os na fyddwn yn clywed gennych, yn unol â pholisi’r ysgol, byddwn yn eich ffonio cyn diwedd y dydd.

Byddwn yn danfon gohebiaeth atoch fel rhieni bob dydd Mawrth a dydd Gwener. Ar ddydd Mawrth byddwn yn danfon y Cyswllt Wythnosol atoch trwy Arbor.Yn y Cyswllt Wythnosol mae gwybodaeth benodol am drefniadau/ digwyddiadau dosbarth eich plentyn.Ar ddydd Gwener byddwn yn danfon y Cylchlythyr Wythnosol atoch trwy Arbor. Yn y cylchlythyr rydym yn dathlu llwyddiannau’r wythnos ac yn sôn am faterion/ digwyddiadau ysgol gyfan.

Os oes gennych bryder neu am gysylltu gydag athrawes/ athro dosbarth eich plentyn neu aelod o’r tîm arwain, gofynnwn yn garedig i chi ffonio’r dderbynfa neu ddanfon e-bost (ysgoltreganna@cardiff.gov.uk) Byddwn yn ymateb cyn gynted ag y bod modd.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn gyffrous arall yn ysgol Treganna!

## Calendr

**Ceisiadau Ysgolion Uwchradd yn agor 4.9.26**

**Clybiau allgyrsiol yn ail gychwyn 14.9.26**

# Blaenoriaethau’r flwyddyn

Eleni, dyma ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu darpariaeth ac addysgu ar draws yr ysgol:

## Rhifedd

Sut gallwn ddatblygu ymhellach strategaethau rhifedd effeithiol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr, sicrhau dilyniant clir o flwyddyn i flwyddyn, a chryfhau eu sgiliau wrth gymhwyso rhifedd ar draws y cwricwlwm?

## Llythrennedd

Sut gallwn feithrin uwch fedrau darllen disgyblion er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth,hybu eu mwynhad o ddarllen,a gwella eu rhuglder ar draws y cwricwlwm?

## Addysgu a Dysgu

Sut gallwn ddatblygu ymhellach yr arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau dysgu cyfoethog, heriol ac o ansawdd uchel?

## Lles, Cynhwysiant ac ADY

I ba raddau gallwn barhau i wella ac ehangu arferion cynhwysol sy’n cefnogi llais dysgwyr,annog annibyniaeth,a chryfhau darpariaeth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

## Gweithdai yn y Nyth

Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn trefnu gweithdai rhieni yn y Nyth yn seiliedig ar y blaenoriaethau hyn. Bydd y sesiynau’n canolbwyntio ar sut gallwch chi fel rhieni:

- gefnogi eich plentyn adref,
- deall y strategaethau rydym yn eu defnyddio yn yr ysgol,
- a chryfhau’r cysylltiad rhwng dysgu cartref ac ysgol.

## Cydweithio ag Ysgolion Eraill

Byddwn hefyd yn arwain prosiectau gydag ysgolion eraill sy’n canolbwyntio ar:

- ddatblygu strategaethau darllen gyda rhieni,
- a chryfhau rhifedd ar draws cymunedau ysgol.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gydweithio gyda chi fel rhieni er mwyn darparu’r addysgu gorau posibl i’ch plant.

## Staff Newydd

Croeso mawr i'r staff newydd sy'n ymuno gyda ni eleni.
Croeso i Efa Cray (athrawes dosbarth Culhwch), Non Pugh (athrawes dosbarth Bedwyr) a Rhodri Lewis (athro Peredur).
Croeso hefyd i'r cynorthwywyr newydd, Tomos Boyce, Martha Powell ac Alys Evans.

Rydym yn gobeithio byddwch chi'n hapus iawn gyda ni yma yn Nhreganna!

## Dyddiadau HMS y flwyddyn yma

Dyma gadarnhad o ddyddiadau HMS y flwyddyn nesaf.
Gweler bod y dyddiad HMS ym mis Hydref wedi gorfod newid i alinio gyda chlwstwr Plasmawr.

Dydd Mawrth 1.9.26
Dydd Mercher 2.9.26
Dydd Llun 5.10.26
Dydd Llun 4.1.27
Dydd Llun 19.7.27
Dydd Mawrth 20.7.27

## Nosweithiau Rhieni Tymor yr Hydref

Bydd nosweithiau rhieni ar gyfer disgyblion Derbyn i Flwyddyn 5 yn cael eu cynnal ar nos Lun a nos Fawrth, yr 21ain a'r 22ain o Fedi. Bydd nosweithiau rhieni ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ar nos Fawrth a nos Fercher y 6ed a'r 7ed o Hydref. Bwriad y sesiynau hyn yw cynnig cyfle i chi gyfarfod ag athro neu athrawes eich plentyn, trafod sut mae eich plentyn wedi ymgartrefu yn y dosbarth newydd, ac i ofyn unrhyw gwestiynau neu rannu pryderon sydd gennych.

Mae'r ddolen ar gyfer trefnu apwyntiad gyda'r athro neu'r athrawes ar Arbor.

### Cyflwyniadau Dosbarth

Dydd Gwener nesaf, byddwn yn anfon cyflwyniadau dosbarth atoch. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Gwybodaeth fanwl am athro/athrawes eich plentyn
- Trefniadau'r dosbarth ar gyfer y flwyddyn
- Trosolwg o waith y tymor ar gyfer dosbarth eich plentyn

Yn ogystal, byddwn yn anfon holiadur cwricwlwm er mwyn eich galluogi chi fel rhieni i gyfrannu at ddatblygiad a chysyniadau cwricwlwm yr ysgol.

Os oes gennych arbenigedd, neu os hoffech gyfrannu mewn unrhyw ffordd at ein cwricwlwm, rhowch wybod i ni.

## Y Nyth

Edrychwn ymlaen at gynnig rhagor o weithdai a digwyddiadau i'n teuluoedd drwy ein Hwb Cymunedol eleni. Ein gobaith yw creu cyfleoedd i rieni a gofalwyr ddod i'r ysgol, cymryd rhan, rhannu profiadau a dysgu a mwynhau ochr yn ochr â'u plant.

Cwrs Dysgu Fel Teulu - Bore Coffi 'Gwyddonwyr Gwych'

Mi fydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn cynnal Bore Coffi 'Gwyddonwyr Gwych' yn yr ysgol ar ddydd Iau, 10fed o Fedi, rhwng 9:00yb a 10:30yb.

Yn ystod y bore bydd cyfle i:

- ddysgu am weithgareddau hwyliog a gwyddonol i chi a'ch plentyn;
- ddysgu mwy am y cwrs 'Gwyddonwyr Gwych';
- ofyn cwestiynau a chael mwy o wybodaeth am y cwrs.

Mae'r sesiwn hon yn addas ar gyfer teuluoedd Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Cofrestrwch eich diddordeb yma, os gwelwch yn dda.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

Ga i…os gwelwch yn dda?

**Her**

Oes modd i mi gael…os gwelwch yn dda?

A fyddai'n bosib…?

**Testun trafod yr wythnos**

Pe bai gen i dri dymuniad…

**Cân yr wythnos**

Catalunta-Gwilym

**Idiom/ Dihareb yr wythnos**

Heb siw na miw